Cyfnod Allweddol 2

# Sut mae Heintiau'n Lledaenu: Hylendid Anifeiliaid a Hylendid ar y Fferm

## Gwers 7: Hylendid Anifeiliaid a Hylendid ar y Fferm

Bydd y myfyrwyr yn chwarae gêm gofio ryngweithiol i ddangos y tebygrwydd rhwng iechyd bodau dynol ac iechyd anifeiliaid.

## Deilliannau Dysgu

### Bydd pob myfyriwr yn:

- Deall bod yr hyn rydych chi'n ei wneud i helpu'ch anifail anwes i fod yn iach yr un peth â'r hyn sydd angen i chi ei wneud i chi eich hun.
- Deall mai, yn union fel ni, dim ond os oes angen y dylai anifeiliaid gymryd gwrthfiotigau a'i bod yn bwysig gorffen y cwrs.
- Deall y gellir dod o hyd i ficrobau niweidiol ar y fferm a bod y microbau hyn yn gallu lledaenu i bobl.
- Deall y gallwn ni, drwy olchi ein dwylo a dilyn rhai rheolau sylfaenol, leihau'r siawns o ddal haint ar y fferm.

### Bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn:

- Deall y gall rhai microbau gael eu trosglwyddo o anifeiliaid i fodau dynol ac i'r gwrthwyneb.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

### Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd/Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- Iechyd ac atal salwch

### Gwyddoniaeth

- Gweithio'n wyddonol
- Pethau byw a'u cynefinoedd
- Anifeiliaid, gan gynnwys bodau dynol

### Saesneg

- Darllen a deall

# Gwers 7: Hylendid Anifeiliaid a Hylendid ar y Fferm

## Yr Adnoddau sydd eu Hangen

### Gweithgaredd Cychwynnol: Trafodaeth Ddosbarth

**Ar gyfer pob dosbarth**

- Copi o PP1 (ar gael o wefan e-bug.eu)

### Prif Weithgaredd: Gêm Gofio

**Ar gyfer pob grŵp**

- Copi o SH1 (hysbyseb)

### Gweithgaredd Estyn 1: Cwis Anifeiliaid

**Ar gyfer pob myfyriwr**

- Copi o SW1

### Gweithgaredd Estyn 2: Poster

**Ar gyfer pob myfyriwr**

- Papur A4
- Peniau/pensiliau lliwio

### Gweithgaredd Estyn 3: Gêm Hwyl ar y Fferm

**Ar gyfer pob myfyriwr**

- Dyfais i gael mynediad i wefan e-Bug (e-bug.eu)

## Deunyddiau Ategol

- SH1 (ad) Taflenni Gêm Gofio
- Cwis Hylendid Anifeiliaid SW1
- PP1 MSPowerPoint – Gofalu am Eich Anifeiliaid Anwes

## Gwaith Paratoi Ychwanegol

Argraffwch a gludwch ar gardbord a/neu lamineiddiwch a thorrwch y cardiau gêm gofio allan sy'n dangos materion yn ymwneud ag iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid (SH 1 ad).

# Gwers 7: Hylendid Anifeiliaid a Hylendid ar y Fferm

**Geiriau Allweddol**

Anifail anwes

Microbau

Trosglwyddiad

Atal Heintiau

Brechlynnau

Fferm

Hylendid

## Iechyd a Diogelwch

I gael gwybodaeth am arferion microbiolegol diogel yn yr ystafell ddosbarth edrychwch ar wefan CLEAPPS

www.cleapps.org.uk

## Dolenni gwe

e-bug.eu/cym/CA2/lesson/Animal-Farm-Hygiene

# Cyflwyniad

1. Dechreuwch y wers drwy ofyn faint o'ch myfyrwyr sy'n berchen ar anifail anwes, pa fath o anifail ydyw a sut gwnaethon nhw ei gael.

2. Trafodwch brofiad y myfyrwyr o ofalu am eu hanifail anwes, gofynnwch iddyn nhw ble mae'n cysgu, ble mae'n cael ei fwydo. Eglurwch fod llawer o debygrwydd rhwng iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid (gallwch ddefnyddio'r cyflwyniad MS PowerPoint: Gofalu am eich anifail anwes, PP1 i egluro hyn i'r dosbarth).

3. Mae anifeiliaid yn ogystal â phobl yn cario microbau. Gall microbau defnyddiol helpu i sicrhau bod iechyd anifeiliaid yn dda, ond gall rhai microbau niweidiol eu gwneud nhw'n sâl, yn union fel y gallant wneud pobl yn sâl. Gall anifeiliaid hefyd ddal heintiau penodol sy'n gyfyngedig i'w rhywogaeth, fel heintiau firysol sy'n gallu eu lladd nhw, fel lewcemia cathod a Parfofirws mewn cŵn.

4. Gall rhai microbau niweidiol ledaenu o anifeiliaid i bobl (e.e. tarwden oddi wrth gathod neu gŵn) ac i'r gwrthwyneb, fel arfer drwy gyffwrdd. Y ffordd orau o atal hyn rhag digwydd yw golchi ein dwylo yn aml.

5. Eglurwch fod yn rhaid i anifeiliaid anwes gael eu bwydo'n iawn, y dylid rhoi moddion llyngyr iddyn nhw, y dylid gwirio eu dannedd a'u ffwr yn rheolaidd, a'u golchi â chynhyrchion addas. Dylai fod gan anifeiliaid anwes le penodol eu hunain hefyd a dylid diheintio eu gwely yn rheolaidd.

6. Mae angen brechu anifeiliaid hefyd i'w hamddiffyn rhag heintiau difrifol penodol. Mae gan bob rhywogaeth ei hamserlen frechu ei hun. Er enghraifft, mae'r gynddaredd (*rabies*) wedi diflannu mewn rhai gwledydd diolch i frechu, yn union fel y frech wen ymysg pobl. Pan fydd ein hanifail anwes yn mynd yn sâl rhaid i ni fynd ag ef at filfeddyg. Gall y milfeddyg wneud profion cyflym arbennig i wirio am rai clefydau. Os yw'r milfeddyg yn gwneud diagnosis o haint bacteriol y mae angen ei drin â gwrthfiotigau, rhaid dilyn y dos rhagnodedig a hyd y driniaeth yn fanwl. Ni ddylid byth defnyddio gwrthfiotigau dros ben o salwch blaenorol, dylid mynd â nhw yn ôl at y milfeddyg neu at y fferyllydd.

7. Rhaid dilyn yr un rheolau ag ar gyfer pobl wrth ddefnyddio gwrthfiotigau gydag anifeiliaid; gall peidio â defnyddio gwrthfiotigau'n iawn arwain at ymwrthedd sy'n golygu na fydd y gwrthfiotigau'n gweithio. Ar ôl defnyddio gwrthfiotigau mewn pobl neu anifeiliaid, gall bacteria ymwrthol dyfu yn y perfedd ac yna lledaenu'n hawdd o anifeiliaid i bobl, neu i'r gwrthwyneb, ac wrth gwrs rhwng pobl. Er enghraifft mae MRSP (*Staffylococws pseudintermedius* sy'n gwrthsefyll Methisilin) yn gallu cael ei ledaenu o fodau dynol i anifeiliaid. 8. Eglurwch i'r dosbarth eu bod yn mynd i ddysgu sut i atal eu hanifail anwes rhag cael heintiau.

# Gweithgaredd

## Prif Weithgaredd: Gêm Gofio

Bydd y myfyrwyr yn chwarae gêm gofio ryngweithiol i ddangos y tebygrwydd rhwng iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid. Mae pob cerdyn (SH1 a-d) yn dangos sefyllfa y gall myfyrwyr ddod ar ei thraws wrth ofalu am eu hanifail anwes a sefyllfa debyg yn ymwneud â'u hiechyd eu hunain.

**Y rheolau**

1. Dylid paru dau gerdyn, un ar gyfer iechyd pobl (glas) ac un ar gyfer iechyd anifeiliaid (gwyrdd).
2. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm, un ar gyfer iechyd pobl (glas), a'r llall ar gyfer iechyd anifeiliaid (gwyrdd).
3. Cymysgwch y cardiau a'u rhoi wyneb i lawr ar fwrdd.
4. Yn ei dro, bydd un chwaraewr o bob tîm yn dewis cerdyn o liw ei dîm, yn ei ddangos i'r dosbarth ac yn ei roi yn ôl lle yr oedd, wyneb i lawr.
5. Mae pob chwaraewr yn ceisio cofio lleoliad y cardiau.
6. Pan fydd chwaraewr yn meddwl ei fod ef neu hi wedi cofio ble mae pâr o gardiau a'i dro ef neu hi yw chwarae, gall gadw'r pâr hwn a chwarae eto. Mae'r tîm yn cael pwynt am bob pâr o gardiau cyfatebol.
7. Rhybudd. Os bydd chwaraewr yn gwneud camgymeriad, yna mae'n rhaid i'r tîm roi pâr o gardiau yr oedd eisoes wedi'u hennill yn ôl.
8. Mae un o'r cardiau iechyd anifeiliaid nad yw'n cyfateb i unrhyw gerdyn iechyd pobl (rhaid i mi roi moddion llyngyr i fy anifail anwes). Rhaid i'r tîm sy'n cael y cerdyn hwn roi pâr o gardiau yn ôl.
9. Y tîm gyda'r nifer fwyaf o barau o gardiau yw'r enillydd.

# Trafodaeth

Gwnewch yn siŵr bod y myfyrwyr wedi deall y llu o nodweddion tebyg rhwng iechyd pobl ac anifeiliaid anwes drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- Beth sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn cadw anifail anwes yn iach? Ateb: Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio hylendid cyffredinol a deintyddol eich anifail, cadwch ei fannau gorffwys yn lân a chofiwch olchi'ch dwylo â dŵr a sebon wedyn, bwydo eich anifail anwes a rhoi moddion llyngyr iddo yn rheolaidd, sicrhau bod eich anifail anwes yn cael ei frechu cyn gynted â phosibl yn unol â'r amserlen a argymhellir ar gyfer y rhywogaeth dan sylw.

- Beth sy'n rhaid i chi ei wneud os bydd anifail anwes yn sâl? Ateb: Dylid mynd ag ef at filfeddyg. Os bydd y milfeddyg yn rhagnodi gwrthfiotigau, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y presgripsiwn ac yn rhoi'r cwrs llawn i'ch anifail hyd yn oed os yw'n ymddangos ei fod yn gwella'n gyflym.

# Gweithgaredd Estyn

## Cwis Hylendid Anifeiliaid a Hylendid ar y Fferm

Rhowch gopi o SW1 i grwpiau o 3 neu 4 myfyriwr. Y tîm gyda'r mwyaf o bwyntiau sy'n ennill. Neu, gellir cwblhau'r cwis ar ddechrau'r wers i fesur eu dealltwriaeth. Mae'r atebion ar gael ar wefan e-Bug.

## Dylunio Poster Anifeiliaid

Gofynnwch i'r myfyrwyr greu poster fel grŵp (darluniau, collages…) i'w helpu i ddeall y tebygrwydd rhwng iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid ac i awgrymu sloganau priodol. Dylai'r myfyrwyr gynnwys anifeiliaid y maent yn berchen arnynt, neu anifeiliaid anwes yr hoffen nhw eu cael, mewn sefyllfaoedd tebyg h.y. yn cael eu brechu.

## Gêm Ryngweithiol Hwyl ar y Fferm

Ewch i e-bug.eu i gael y gêm hwyliog hon y gellir ei chyfuno ag ymweliad â fferm. Gofynnir i fyfyrwyr sylwi ar y camgymeriadau y mae ymwelwyr ifanc yn eu gwneud yn ystod yr ymweliad ac esbonio pam y gall pob un arwain at niwed.

# Atgyfnerthu'r Hyn a Ddysgwyd

Ar ddiwedd y wers, gofynnwch i'r dosbarth a allant enwi gwahanol ffyrdd o ofalu am anifail anwes: Er enghraifft:

- Gwneud yn siŵr ein bod yn gwirio hylendid cyffredinol a hylendid deintyddol anifeiliaid anwes yn rheolaidd.
- Cadw ei fannau gorffwys yn lân a golchi fy nwylo wedyn.
- Bwydo anifeiliaid anwes a rhoi moddion llyngyr iddo'n rheolaidd
- Mynd i weld milfeddyg er mwyn brechu anifeiliaid anwes.
- Os yw'r milfeddyg yn rhagnodi gwrthfiotigau, gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y presgripsiwn yn gywir.

## SH1 - (a-d) Taflenni Gêm Gofio

Rwy'n cael fy mrechu yn unol â'r canllawiau

Rwy'n golchi fy nwylo'n aml yn ystod y dydd gyda dŵr a sebon

Mae gennyf ficrobau defnyddiol yn fy llwybr treulio sy'n helpu i'm cadw'n iach

Mae gen i gofnod o frechiadau

Mae fy system imiwnedd yn ymladd yn erbyn yr heintiau mwyaf cyffredin

Pan fyddaf yn mynd am dro yn y goedwig, rwy'n gwirio fy nghroen a'm blew am drogod

Rwy'n cael fy mrechu

Rwy'n brwsio fy nannedd

Mae gen i ddeiet cytbwys sy'n cynnwys digon o ffrwythau a llysiau

# SH1 - (a-d) Taflenni Gêm Gofio

Nid wyf byth yn cymryd gwrthfiotigau o driniaeth flaenorol

Os byddaf yn mynd yn sâl, dim ond os bydd fy meddyg yn eu rhagnodi y byddaf yn cymryd gwrthfiotigau

Os yw fy meddyg yn rhagnodi gwrthfiotigau, byddaf yn gorffen y driniaeth a ragnodwyd i mi

Dw i ddim yn bwydo fy anifail anwes tra byddaf yn coginio neu'n bwyta

Byddaf yn dychwelyd unrhyw wrthfiotigau dros ben i fy fferyllfa

## SH1 - (a-d) Taflenni Gêm Gofio

Mae gan fy anifail anwes dystysgrif frechu

Mae gan fy anifail anwes ddeiet cytbwys wedi ei addasu i'w rywogaeth

Mae fy anifail anwes yn cael ei frechu yn unol â'r amserlen brechlynnau ar gyfer ei rywogaethau

Byddaf yn brechu fy anifail anwes

Mae gan fy anifail anwes imiwnedd sy'n ymladd yr heintiau mwyaf cyffredin

Rwy'n golchi fy anifail anwes gyda siampŵ addas pan fydd yn fudr

Rwy'n gwirio dannedd fy anifail anwes

Pan fyddaf yn mynd am dro yn y goedwig gyda fy anifail anwes, rwy'n gwirio ei ffwr am drogod

Mae gan fy anifail anwes ficrobau defnyddiol yn ei lwybr treulio sy'n helpu i'w gadw'n iach

## SH1 - (a-d) Taflenni Gêm Gofio

Os bydd fy anifail anwes yn mynd yn sâl, dim ond os bydd y milfeddyg yn eu rhagnodi y byddaf yn rhoi gwrthfiotigau iddynt

Nid wyf byth yn rhoi gwrthfiotigau o driniaeth flaenorol i fy anifail anwes

Os bydd y milfeddyg yn rhagnodi gwrthfiotigau i fy anifail anwes, rwy'n rhoi'r cwrs cyfan flaenorol

Rwy'n gadael i fy anifail anwes fwyta ei fwyd yn ei bowlen ei hun

Byddaf yn dychwelyd unrhyw wrthfiotigau dros ben i'm milfeddyg

Rwy'n rhoi moddion llyngyr i fy anifail anwes yn rheolaidd

# Cwis: Hylendid Anifeiliaid a Hylendid ar y Fferm

Ticiwch gymaint o atebion ag sy'n briodol

Wrth ofalu am anifeiliaid anwes, dylech:

(3 phwynt)

- ❑ Frwsio eu dannedd
- ❑ Mynd â'ch anifail anwes at filfeddyg i gael ei frechu
- ❑ Bwydo eich anifail anwes gydag unrhyw fwyd y gallwch chi ddod o hyd iddo
- ❑ Rhoi moddion llyngyr i'ch anifail anwes yn rheolaidd

Gall microbau defnyddiol droi cynhyrchion anifeiliaid yn:

(3 phwynt)

- ❑ Llaeth
- ❑ Iogwrt
- ❑ Hufen
- ❑ Caws

Gallwn helpu i atal lledaeniad haint rhwng anifeiliaid a phobl drwy:

(2 bwynt)

- ❑ Olchi ein dwylo â dŵr a sebon ar ôl chwarae gydag anifeiliaid
- ❑ Cusanu neu roi ein hwyneb yn agos at wyneb yr anifeiliaid
- ❑ Golchi anifeiliaid anwes yn rheolaidd gyda chynhyrchion addas